



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Rhoi diwedd ar werthu mawn mewn garddwriaeth yng Nghymru a Lloegr

Dyddiad: Awst 2022

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Rydyn ni'n gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrrff hyd braich ar ein huchelgais o wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd cynt.



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

Peat in horticulture consultation

Soils and Peatlands team

Area SE

2 Marsham Street

London

SW1P 4DF

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

## Cynnwys

Rhoi diwedd ar werthu mawn mewn garddwriaeth yng Nghymru a Lloegr .....	1
Rhagair .....	4
Cefndir polisi .....	4
Dyddiad cyhoeddi a chyfnod ymgynghori .....	4
Pam wnaethon ni ofyn am farn pobl ar y pwnc hwn? .....	4
Rhestr lawn o'r cwestiynau a chrynodeb o'r ymatebion .....	5
Ymatebion fesul cwestiwn .....	5
Atebwyr busnes .....	18
Ymatebion eraill gan eNGOs a Defnyddwyr masnachol mawn.....	23
Casgliad a'r Camau Nesaf .....	23

# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb neu ymatebion i ymgynghoriad y llywodraeth ar gynigion i roi diwedd ar werthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn yng Nghymru a Lloegr. Fe wnaethom ofyn am sylwadau ar y canlynol:

- Mesurau i roi diwedd ar ddefnyddio mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn mewn garddwriaeth fanwerthol.
- Barn ar bob un o'r mesurau arfaethedig a sut gallent weithredu.
- Unrhyw dystiolaeth o effeithiau rhoi diwedd ar y defnydd o fawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn yn y sector garddwriaeth broffesiynol a sectorau ehangach.

## Cefndir polisi

Mae mawndiroedd yn nodwedd eiconig o'n tirweddau a nhw yw storfeydd carbon mwyaf y DU. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol gan gynnwys cyflenwi dŵr yfed yn y DU, lleihau'r perygl o lifogydd a darparu bwyd a lloches i fywyd gwyllt prin.

Mae echdynnu mawn yn rhyddhau'r carbon sy'n cael ei storio y tu mewn fel carbon deuocsid, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae mawn yn cael ei echdynnu yn y DU at ddibenion garddwriaethol, yn bennaf. Drwy roi diwedd ar werthu mawn mewn garddwriaeth, byddwn yn gwarchod ein mawndiroedd sy'n agored i niwed ac yn helpu i atal newid yn yr hinsawdd.

Mae mawn wedi cael ei echdynnu'n fasnachol ar gyfer cyfryngau tyfu ers y 1970au. Mae'r sector garddwriaeth fasnachol fodern wedi cael ei ddatblygu ar sail y defnydd o fawn a'i briodweddau ar gyfer tyfu planhigion. Mae mawn ar gyfer garddwriaeth yn cael ei echdynnu o fawndiroedd isel, yn bennaf o gyforgorsydd iseldirol, sy'n digwydd mewn basnau neu leoliadau mewndirol, gwastad ac isel. Bellach, dim ond ar oddeutu 627 ha o fawndir ar 24 safle y mae cloddio masnachol yn Lloegr wedi'i drwyddedu.

## Dyddiad cyhoeddi a chyfnod ymgynghori

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi i ddechrau ddydd Sadwrn 18 Rhagfyr 2021, ac roedd ar agor am 12 wythnos, a daeth i ben ddydd Gwener 18 Mawrth 2022.

## Pam wnaethon ni ofyn am farn pobl ar y pwnc hwn?

Drwy un neu fwy o fesurau yn yr ymgynghoriad, y bwriad oedd ceisio barn ar roi diwedd ar ddefnyddio mawn yn y sector Garddwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Amcan y polisi yw lleihau i sero faint o fawn sy'n cael ei ddefnyddio'n ddiangen. Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at darged allyriadau carbon sero net y llywodraeth.

# Rhestr lawn o'r cwestiynau a chrynodeb o'r ymatebion

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad gerbron y cyhoedd ac yn ystod y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos, cafwyd 5619 o ymatebion.

Cafodd cwestiynau penagored eu dadansoddi a'u rhannu'n categorïau; efallai y bydd rhai atebion hirach wedi'u cynnwys mewn mwy nag un categori. Mae'r rhif 'n' a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn cynrychioli nifer yr ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn neu ran o bob cwestiwn.

## Ymatebion fesul cwestiwn

### Math o Ddefnyddiwr

#### Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi?

(Cwestiwn 1 yn yr ymgynghoriad)

Bwriad y cwestiwn hwn oedd gwahanu defnyddwyr yr arolwg yn categorïau ar sail eu defnydd posibl o fawn a chyfryngau tyfu eraill.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr - 88.6% - yn ystyried eu hunain yn arddwyr amatur, gyda 144 o'r ymatebwyr (2%) yn dewis yr opsiwn ar gyfer tyfwr proffesiynol mewn garddwriaeth.

Roedd yr ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' (n=367, 6%) yn ystyried eu hunain fel a ganlyn:

- Garddwyr proffesiynol a phenseiri tirlunio (n=59)
- Ecolegwyr (n=18)
- Garddwriaethwyr (n=14)
- Bridwyr planhigion sy'n benodol i rywogaethau (n=4)

#### Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau ohonoch chi? (n=5618)

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
<b>Garddwr amatur (hy defnyddiwr cynhyrchion garddwriaethol nad yw'n gwerthu unrhyw gynhyrchion)</b>	4982	88.7%
<b>Corff amgylcheddol/Corff anllywodraethol</b>	71	1.26%
<b>Gwneuthurwr cyfryngau tyfu</b>	19	0.34%

<b>Manwerthwr sy'n gwerthu cyfryngau tyfu mewn sachau</b>	33	0.59%
<b>Tyfwr garddwriaeth proffesiynol</b>	144	2.56%
<b>Echdynnwr mawn</b>	2	0.04%
<b>Arall</b>	367	6.53%

Ni wnaeth un ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

## Lleoliad

**Ym mha diriogaeth/tiriogaethau ydych chi'n byw neu, os yw'n gymwys, mae eich busnes yn gweithredu?**

(Cwestiwn 2 yn yr ymgynghoriad)

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn byw'n bennaf yn Lloegr (n=5124, 91%), a'r opsiynau a ddewiswyd nesaf oedd Cymru (n=393, 7%), yr Alban (n=173, 3%) a Gogledd Iwerddon (n=53, 0.94%)

**Ym mha diriogaeth/tiriogaethau ydych chi'n byw neu, os yw'n gymwys, mae eich busnes yn gweithredu? (n=5618)**

<b>Opsiwn</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Canran</b>
<b>Lloegr</b>	5124	91.19%
<b>Gogledd Iwerddon</b>	53	0.94%
<b>Yr Alban</b>	173	3.08%
<b>Cymru</b>	393	6.99%
<b>Arall</b>	48	0.85%

Ni wnaeth un ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

## Dull

**Mae ein dull cyfredol yn cynnwys targedau gwirfoddol yn Lloegr i roi'r gorau i ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth erbyn 2020 yn y sector amatur. A ddylem ni barhau â'r dull gwirfoddol?**

(Cwestiwn 3 yn yr ymgynghoriad)

Roedd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y targedau gwirfoddol a nodwyd yn 2011 ar gyfer cael gwared yn raddol ar ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi parhau â'r dull gwirfoddol, gydag 85% (n=4789) yn ateb 'Na ddylem' i'r cwestiwn hwn. Roedd gweddill yr ymatebion wedi'u rhannu rhwng y rheini a atebodd 'dylem' (11%) a'r rheini a oedd yn ansicr ynghylch y dull gorau o weithredu (3%).

**Mae ein dull cyfredol yn cynnwys targedau gwirfoddol yn Lloegr i roi'r gorau i ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth erbyn 2020 yn y sector amatur. A ddylem ni barhau â'r dull gwirfoddol? (n=5593)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Dylem	610	10.9%
Na ddylem	4789	85.6%
Ansicr	194	3.45%
Heb ateb	26	-

## Amserlenni

**Pe baem yn newid y dyddiad ar gyfer rhoi diwedd ar ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth yn achos y sector amatur, beth ddylai'r dyddiad hwnnw fod?**

(Cwestiwn 4 yn yr ymgynghoriad)

Er bod 57% o'r ymatebwyr yn credu bod 2024 yn ddyddiad addas i roi diwedd ar ddefnyddio mawn, gan ystyried yr ymatebion unigol i'r cwestiwn penagored, roedd 41% o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r defnydd o fawn ddod i ben erbyn 2024 neu'n gynharach.

**Pe baem yn newid y dyddiad ar gyfer rhoi diwedd ar ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth yn achos y sector amatur, beth ddylai'r dyddiad hwnnw fod? (n=5416)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
2024	3109	57.4%
2025	168	3.10%
2026	69	1.27%
Arall	2070	38.2%
Heb ateb	203	-

Roedd gan y cwestiwn hwn hefyd elfen benagored a gafodd 4522 o ymatebion. O'r rhain, cafodd yr ymatebion ysgrifenedig eu dadansoddi a'u categorio fel y dangosir yn y ffigur canlynol.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn penagored 'Pe baem yn newid y dyddiad ar gyfer rhoi diwedd ar ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth yn achos y sector amatur, beth ddylai'r dyddiad hwnnw fod?'**

<b>Ymateb</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Dylid gwahardd mawn cyn gynted â phosibl</b>	2683
<b>Cydnabyddiaeth o'r rhesymau amgylcheddol sy'n sail i'r newidiadau arfaethedig</b>	1620
<b>Mae dewisiadau eraill heb fawn ar gael</b>	997
<b>Nid oedd y targed gwirfoddol yn gweithio</b>	599
<b>Dylai fod yn orfodol</b>	398
<b>Mae prinder cynhyrchion addas eraill</b>	122
<b>Mae'r dewisiadau heb fawn yn wael</b>	114
<b>Angen mwy o amser i fusnesau roi'r gorau i werthu cynhyrchion mawn</b>	18

**A ydych chi'n cytuno y byddai'r mesur hwn yn annog y diwydiant garddwriaeth i leihau ei ddefnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn?**

(Cwestiwn 13 yn yr ymgynghoriad)

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64%) y byddai adrodd gorfodol yn annog y diwydiant garddwriaeth i ddefnyddio llai o fawn. Fodd bynnag, roedd 21% (n=1176) o'r ymatebwyr yn ansicr a fyddai'r mesur hwn yn lleihau faint o fawn y byddai'r diwydiant garddwriaeth yn ei ddefnyddio.

**A ydych chi'n cytuno y byddai'r mesur hwn yn annog y diwydiant garddwriaeth i leihau ei ddefnydd o fawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn? (n=5580)**

<b>Opsiwn</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Canran</b>
<b>Ydw</b>	3557	63.7%
<b>Nac ydw</b>	847	15.2%
<b>Ansicr</b>	1176	21.1%
<b>Heb ateb</b>	39	-



**A ydych chi'n cytuno y byddai'r mesur hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â mawn garddwriaethol?**

(Cwestiwn 14 yn yr ymgynghoriad)

Wrth ystyried a fyddai adrodd gorfodol yn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â defnyddio mawn, credai 79% (n=4388) o'r ymatebwyr y byddai'r mesur hwn yn helpu.

**A ydych chi'n cytuno y byddai'r mesur hwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â mawn garddwriaethol? (n=5582)**

Opsiw'n	Cyfanswm	Canran
Ydw	4388	78.6%
Nac ydw	556	9.96%
Ansicr	638	11.4%
Heb ateb	37	-

**A ydych chi'n credu y dylid gwahardd manwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yng Nghymru a Lloegr?**

(Cwestiwn 15 yn yr ymgynghoriad)

Roedd cefnogaeth gyffredinol i wahardd gwerthu mawn gyda 96% (n=5439) o'r ymatebwyr yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn hwn.

**A ydych chi'n credu y dylid gwahardd manwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn yng Nghymru a Lloegr? (n=5602)**

Opsiw'n	Cyfanswm	Canran
Ydw	5349	95.5%
Nac ydw	206	3.68%
Ansicr	47	0.84%
Heb ateb	17	-

**A fydd yn ymarferol gweithredu gwaharddiad ar werthu yn y sector manwerthu erbyn diwedd y tymor seneddol hwn (2024)?**

(Cwestiwn 16 yn yr ymgynghoriad)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (82%) yn credu y byddai'n ymarferol rhoi gwaharddiad manwerthu mawn ar waith erbyn diwedd y senedd (2024). Roedd gan y cwestiwn hwn adran benagored ar gyfer y rheini a oedd yn dymuno rhoi sylwadau pellach ar eu hateb. Mae hyn yn rhoi syniad o'r ffactorau sy'n cymell ymatebwyr i ateb y cwestiwn hwn, a'r ymateb mwyaf cyffredin oedd y ffactorau amgylcheddol sy'n sbarduno'r gwaharddiad (31%).

**A fydd yn ymarferol gweithredu gwaharddiad ar werthu yn y sector manwerthu erbyn diwedd y tymor seneddol hwn (2024)? (n=5597)**

Opsiw'n	Cyfanswm	Canran
Bydd	4592	82.0%
Na fydd	275	4.91%
Ansicr	730	13.0%
Heb ateb	22	-

Craffwyd ar yr atebion penagored (n=2023) a'u rhannu'n gategoriâu gwahanol. Cafodd y rhain eu grwpio fel y dangosir yn y graff.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn penagored 'A fydd yn ymarferol gweithredu gwaharddiad ar werthu yn y sector manwerthu erbyn diwedd y tymor seneddol hwn (2024)?'**

Ymatebion	Cyfanswm
Cydnabyddiaeth o'r rhesymau amgylcheddol sy'n sail i'r gwaharddiad	641
Mae dewisiadau eraill heb fawn ar gael	526
Mae 2024 yn ddyddiad ymarferol	507
Mae'r sector manwerthu wedi cael digon o amser i gael gwared ar fawn	283
Mae angen mwy o amser i addasu	66

**A oes diwydiannau heblaw am y diwydiant garddwriaeth a fyddai'n cael eu heffeithio'n ddifrifol gan waharddiad ar fanwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn? [Os 'oes'] pa ddiwydiannau?**

(Cwestiwn 17 yn yr ymgynghoriad)

Dim ond 308 o ymatebion a oedd yn dangos y byddai gwahardd manwerthu mawn a chynnyrchion sy'n cynnwys mawn yn effeithio'n ddifrifol ar ddiwydiannau ar wahân i'r rheini yn y sector garddwriaeth. Gan ddefnyddio'r cwestiwn penagored, nododd yr ymatebwyr hyn mai'r sectorau eraill fyddai'n cael eu heffeithio fyddai tanwydd gwresogi a wisgi. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr - 64% - yn 'ansicr' a fyddai diwydiannau eraill yn gorfod newid yn dilyn gwaharddiad.

**A oes diwydiannau heblaw am y diwydiant garddwriaeth a fyddai'n cael eu heffeithio'n ddifrifol gan waharddiad ar fanwerthu mawn a chynnyrch sy'n cynnwys mawn? [Os 'oes'] pa ddiwydiannau? (n=5493)**

Opsiw'n	Cyfanswm	Canran
Oes	308	5.61%
Nac oes	1651	30.1%
Ansicr	3534	64.3%
Heb ateb	126	-

Roedd adran benagored y cwestiwn hwn yn mesur ymatebion (n=642) ymatebwyr ynghylch eithriadau i waharddiad. Y ddau ddiwydiant a gydnabuwyd yn y sylwadau oedd y diwydiant wisgi a'r ffaith bod angen mawn ar gyfer tanwydd a gwres.

**A ddylid caniatáu unrhyw eithriadau rhag gwaharddiad o'r fath? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

(Cwestiwn 18 yn yr ymgynghoriad)

Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (n=3698, 66%) yn credu na ddylid cael unrhyw eithriadau i waharddiad. Dywedodd ychydig o dan draean o'r ymatebwyr (n=1724, 31%) y dylid cael eithriadau gwyddonol i waharddiad, gyda 217 (4%) yn nodi y dylid cael eithriadau ar gyfer cyfryngau tyfu ar gyfer planhigion a llwyni mewn potiau.

**A ddylid caniatáu unrhyw eithriadau rhag gwaharddiad o'r fath? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol) (n=5567)**

Opsiw'n	Cyfanswm	Canran
---------	----------	--------

<b>Dylid, lle mae mawn yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng tyfu ar gyfer planhigion a llwyni mewn potiau</b>	217	4.44%
<b>Dylid, at ddibenion gwyddonol</b>	1724	30.9%
<b>Dylid, rheswm arall</b>	218	3.92%
<b>Na, ni ddylid cael unrhyw eithriadau</b>	3698	66.4%
<b>Heb ateb</b>	52	-

Atebodd 2349 o ymatebwyr y cwestiwn penagored dilynol a chafodd yr ymatebion eu categorreiddio fel a ganlyn:

- Does dim angen defnyddio mawn – felly does dim angen eithriadau 42%
- Dylid cael eithriadau at ddefnydd gwyddonol 25%
- Bydd eithriadau'n cael eu defnyddio fel bylchau (*loopholes*) 16%
- Dylid eithrio rhai diwydiannau 10%
- Cydnabyddiaeth o'r rhesymau amgylcheddol sy'n sail i'r gwaharddiad (newid yn yr hinsawdd, sero net) 4%
- Dylid cael eithriad ar gyfer y diwydiant wisgi 1%
- Dylai fod angen cael trwydded Defra i ddefnyddio mawn 1%
- Ni ddylid gwahardd 0.90%
- Mae gwaharddiad yn dibynnu ar gyfyngiadau mewnfario 0.08%

### **Yn achos planhigion a llwyni mewn potiau, beth ddylid ei ganiatáu fel uchafswm y mawn a ddylai gael ei eithrio o waharddiad ar werthu mawn?**

(Cwestiwn 19 yn yr ymgynghoriad)

Dewisodd tua hanner yr ymatebwyr (57%) yr opsiwn 'Llai nag 1L o fawn' ac roedd tua thraean o'r ymatebwyr (40%) wedi dewis yr opsiwn 'Dim uchafswm'. Mae'r dadansoddiad o'r sylwadau testun agored (n=2540) yn dangos bod 88% o'r ymatebwyr o'r farn na ddylid caniatáu unrhyw fawn mewn planhigion a llwyni mewn potiau. Gan fod nifer yr ymatebwyr a fynegodd na ddylid caniatáu unrhyw fawn mewn llwyni a phlanhigion mewn potiau yn fwy na'r nifer a ddewisodd naill ai'r opsiwn 'Llai nag 1L o fawn' neu'r opsiwn 'Dim uchafswm' [neu'r ddau gyda'i gilydd yn dibynnu ar y 'n' ar gyfer y cwestiwn agored] gellir dehongli bod hyn yn golygu bod y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd y naill neu'r llall o'r ddau opsiwn hyn yn mynegi ffafriaeth dros beidio ag eithrio mawn a ddefnyddir ar gyfer planhigion a llwyni mewn potiau rhag y gwaharddiad ar werthu.

### **Yn achos planhigion a llwyni mewn potiau, beth ddylid ei ganiatáu fel uchafswm y mawn a ddylai gael ei eithrio o waharddiad ar werthu mawn? (n=5034)**

<b>Opsiwn</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Canran</b>
---------------	-----------------	---------------

Llai nag 1L y cynnyrch	2882	57.3%
Llai na 5L y cynnyrch	68	1.34%
Llai na 10L y cynnyrch	40	0.79%
Dim uchafswm	2044	40.6%
Heb ateb	585	-

Dadansodwyd yr ymatebion o'r cwestiwn penagored dilynol, ac o'r rhain y prif ddatganiadau oedd na ddylid caniatáu unrhyw fawn ynddynt. Mae crynodeb o'r canlyniadau hyn isod:

- Ni ddylid caniatáu unrhyw fawn, 88%
- Mae dewisiadau eraill heb fawn ar gael 5%
- Angen eithriadau 4%
- Mae hyn yn agored i'w ddehongli ac fe allai greu bylchau (*loopholes*) 2%
- Ddim yn deall cwestiwn 1%
- Cydnabyddiaeth o'r rhesymau amgylcheddol sy'n sail i'r gwaharddiad (newid yn yr hinsawdd, sero net) 0.47%
- Ni ddylid cael uchafswm 0.20%

**A ydych chi'n credu y bydd y mesur i godi pris cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn (hy tâl man gwerthu) yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr?**

(Cwestiwn 20 yn yr ymgynghoriad)

Atebodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr (68%, n=3770) 'Ydw' y byddai cynyddu pris cynhyrchion sy'n cynnwys mawn yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr.

**A ydych chi'n credu y bydd y mesur i godi pris cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn (hy tâl man gwerthu) yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr? (n=5585)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Ydw	3770	67.5%
Nac ydw	957	17.1%
Ansicr	858	15.4%
Heb ateb	34	-

Mae dadansoddiad o'r 2716 o ymatebion penagored i'r cwestiwn hwn yn rhoi rhesymau pam bod ymatebwyr yn credu y byddai'r mesur hwn yn cael effaith, gyda nifer fach o ymatebwyr yn mynegi'r farn y byddai cynnydd mewn prisiau yn effeithio ar y rheini ar

incwm is. Fodd bynnag, roedd bron i chwarter y rhai a gynigodd sylwadau ychwanegol (23%) wedi mynegi'r farn y dylid gwahardd gwerthu mawn.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn penagored 'A ydych chi'n credu y bydd y mesur i godi pris cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn (hy tâl man gwerthu) yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr?'**

Ymateb	Cyfanswm
Mae pobl yn dewis beth bynnag sydd rataf	707
Dylid gwahardd defnyddio mawn	639
Mae angen i gynhyrchion mawn gostio mwy na dewisiadau eraill	456
Mae angen cynyddu'r gost yn sylweddol er mwyn newid ymddygiad	401
Mae angen gostwng prisiau'r dewisiadau heb fawn	272
Mae angen gwella'r negeseuon ar gyfryngau heb fawn	144
Dylai cynyddu costau cynhyrchion heb fawn fod yn fesur dros dro	50
Dylai'r cynnydd mewn pris fod yn dreth amgylcheddol	32
Mae newidiadau mewn prisiau cynhyrchion yn effeithio ar bobl sy'n llai cefnog	28
Mae cynyddu prisiau fel hyn yn wyrddgalchu	8

**A fyddai'r mesur hwn yn annog gwerthu mwy o gyfryngau tyfu amgen di-fawn?**

(Cwestiwn 21 yn yr ymgynghoriad)

O'r 5562 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 69% (n=3870) o'r farn y byddai cynyddu pris cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn yn annog gwerthu dewisiadau eraill heb fawn.

**A fyddai'r mesur hwn yn annog gwerthu mwy o gyfryngau tyfu amgen di-fawn? (n=5562)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
--------	----------	--------

<b>Byddai</b>	3870	69.6%
<b>Na fyddai</b>	577	10.4%
<b>Ansicr</b>	1115	20.0%
<b>Heb ateb</b>	57	-

Mae dadansoddiad o'r ymatebion penagored (n=1792) i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod y rhai a atebodd yn credu y bydd prisiau yn effeithio ar y dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud wrth brynu cyfryngau tyfu. O'r ymatebion, mae 13% (n=167) yn dal i gredu bod cynnydd mewn prisiau yn annhebygol o newid unrhyw beth, ac mae lleiafrif o 1% yn credu y byddai hyn yn prisio garddwyr incwm is allan o'r farchnad. Mae crynodeb o'r canlyniadau isod:

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn 'A fyddai'r mesur hwn yn annog gwerthu mwy o gyfryngau tyfu amgen di-fawn?'**

<b>Ymateb</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Pobl yn cael eu cymell gan bris</b>	521
<b>Dylid gwahardd gwerthu mawn</b>	332
<b>Mae cynyddu'r pris yn annhebygol o newid unrhyw beth</b>	167
<b>Mae angen mwy o addysg ynglŷn â defnyddio mawn</b>	104
<b>Mae angen marchnata da a gwneud yn siŵr bod cynhyrchion heb fawn ar gael</b>	78
<b>Byddai'n hyrwyddo cynhyrchion heb fawn dros fawn</b>	45
<b>Mawn yn cael ei weld fel cynnyrch gwell</b>	23
<b>Dewis opsiynau amgylcheddol dros fawn</b>	22
<b>Byddai hyn yn prisio garddwyr incwm is allan o'r farchnad</b>	17
<b>Manwerthwyr yn gwneud mwy o elw wrth werthu mawn</b>	16

## Beth fyddai'n lefel briodol ar gyfer y tâl man gwerthu ar gyfer sach 50L o gyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn?

(Cwestiwn 22 yn yr ymgynghoriad)

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn eu categorio yn ôl y gwerth yr oedd yr ymatebwyr yn ei roi ar fag o fawn, gyda bron yr un nifer o ymatebwyr yn ateb y dylai mawn gostio'r uchafswm o £3.50 (n=2117, 40%), a 40% (n=2110) yn dewis 'Arall', gyda'r rhan fwyaf yn dweud y dylai mawn gostio mwy na £3.50 am fag 50L.

## Beth fyddai'n lefel briodol ar gyfer y tâl man gwerthu ar gyfer sach 50L o gyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn? (n=5283)

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
£1.00 (£0.02 y litr)	311	5.89%
£2.50 (£0.05 y litr)	745	14.1%
£3.50 (£0.07 y litr)	2117	40.1%
Arall	2110	39.9%
Heb ateb	336	-

Cafodd yr ymatebwyr (n=1611) gyfle hefyd i ymhelaethu ar eu hatebion ac mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

- Dylai'r tâl ychwanegol fod yn uwch 51%
- Dylid gwahardd gwerthu mawn 46%
- Ni fydd tâl man gwerthu yn gweithio 3%

## A oes gennych chi farn am yr hyn ddylai manwerthwyr ei wneud gyda'r arian a godir drwy'r tâl man gwerthu am sachau? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

(Cwestiwn 23 yn yr ymgynghoriad)

Roedd y cwestiwn hwn yn cynnig detholiad o ymatebion gan gynnwys ymateb penagored. O'r 5379 a atebodd y cwestiwn, mae 86% (n=4644) ohonynt yn credu y dylai unrhyw dâl man gwerthu ar unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys mawn gael ei roi i brosiectau adfer mawndiroedd. Roedd y grŵp mwyaf nesaf o ymatebwyr (n=1181, 22%) yn credu y dylid rhoi'r tâl i ariannu ymchwil a datblygu yn y diwydiant garddwriaeth.

## A oes gennych chi farn am yr hyn ddylai manwerthwyr ei wneud gyda'r arian a godir drwy'r tâl man gwerthu am sachau? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol) (n=5379)

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Rhoi arian i brosiectau adfer mawndiroedd	4644	86.3%



<b>Rhoi arian i brosiectau ymchwil a datblygu yn y diwydiant garddwriaeth</b>	1181	21.9%
<b>Arall</b>	666	12.4%
<b>Heb ateb</b>	240	-

Atebodd 1732 o bobl y cwestiwn penagored ac ochr yn ochr â'r awgrymiadau i roi'r arian i brosiectau adfer mawndiroedd neu brosiectau amgylcheddol eraill, defnyddiodd 31% o'r ymatebwyr y gofod hwn i awgrymu y dylid gwahardd gwerthu cynhyrchion sy'n cynnwys mawn.

- Dylid gwahardd gwerthu cynhyrchion sy'n cynnwys mawn, ac ni ddylid codi tâl man gwerthu 30.2%
- Dylid rhoi'r arian i brosiectau adfer mawndiroedd 22.9%
- Dylid rhoi'r arian i helpu gyda materion amgylcheddol 19.2%
- Dylid defnyddio'r arian i leihau'r gost a gwella ansawdd y cyfryngau heb fawn 13.6%
- Mae dewisiadau eraill heb fawn ar gael 7.48%
- Dylai fod yn orfodol rhoi 6.57%

### **A ydych chi'n credu y dylid cael eithriadau i'r tâl man gwerthu? [Os 'ydw'] Sut ddylem ni benderfynu pwy ddylai gael ei eithrio o'r mesur?**

(Cwestiwn 24 yn yr ymgynghoriad)

O'r rhai a atebodd, mae 89% (n=4792) yn credu na ddylid cael unrhyw eithriadau i dâl man gwerthu.

### **A ydych chi'n credu y dylid cael eithriadau i'r tâl man gwerthu? [Os 'ydw'] Sut ddylem ni benderfynu pwy ddylai gael ei eithrio o'r mesur? (n=5410)**

<b>Opsiwn</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Canran</b>
<b>Ydw</b>	166	3.1%
<b>Nac ydw</b>	4792	88.6%
<b>Ansicr</b>	452	8.4%
<b>Heb ateb</b>	209	-

Atebodd 794 o bobl adran benagored y cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, mae 5% yn credu y dylai fod eithriadau ar gyfer casgliadau arbenigol o blanhigion ac at ddibenion gwyddonol. Mae crynodeb o'r cwestiwn penagored i'w weld isod:

- Dylid gwahardd gwerthu mawn 62%
- Bydd eithriadau'n cael eu defnyddio fel bylchau (*loopholes*) 30%

- Dylai fod eithriadau ar gyfer casgliadau arbenigol o blanhigion ac anghenion gwyddonol 5%
- Bydd costau uwch i fusnesau bach a chanolig 2%
- Ni ddylid codi tâl man gwerthu 1%

**Yn ychwanegol at y tâl man gwerthu, a ydych chi'n credu y byddai labelu gorfodol ar sachau cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr?**

(Cwestiwn 25 yn yr ymgynghoriad)

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i weld a oedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai pobl yn gwneud penderfyniadau prynu ar sail gwybodaeth a roddwyd iddynt yn ogystal â phwysau economaidd. Atebodd y mwyafrif (n=3943, 72%) y byddai labelu yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr.

**Yn ychwanegol at y tâl man gwerthu, a ydych chi'n credu y byddai labelu gorfodol ar sachau cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn yn cael effaith ar ymddygiad defnyddwyr? (n=5492)**

Opsiw	Cyfanswm	Canran
Ydw	3943	71.8%
Nac ydw	719	13.1%
Ansicr	830	15.1%
Heb ateb	127	-

## Atebwyr busnes

**Ydych chi'n fusnes [ymateb ar ran busnes]?**

(Cwestiwn 5 yn yr ymgynghoriad)

Bwriad y cwestiwn hwn oedd rhannu'r ymatebwyr yn ddau grŵp i'w dadansoddi ymhellach, gyda'r rhai a atebodd 'Ydw' yn gorfod ateb mwy o gwestiynau am eu gweithgareddau busnes a'u perthynas bosibl â'r sector garddwriaeth. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (94.9%, n=5333) 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn gyda dim ond 3.5% yn ateb ar ran busnes. Mae hyn yn agos iawn at y 3.5% a oedd yn ystyried eu hunain yng nghwestiwn 1 fel gwneuthurwyr cyfryngau tyfu, manwerthwyr sy'n gwerthu cyfryngau tyfu mewn sachau, tyfwyr garddwriaeth proffesiynol neu echdynwyr mawn.

**Ydych chi'n fusnes [ymateb ar ran busnes]? (Os 'Nac ydw', byddwch yn mynd ymlaen i gwestiwn 13.) (n=5530)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Ydw	197	3.51%
Nac ydw	5333	94.91%
Heb ateb	89	1.58%

### Ydych chi'n fusnes yn y sector garddwriaeth?

(Cwestiwn 6 yn yr ymgynghoriad)

O'r 204 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 85% (n= 174) yn ateb ar ran busnes yn y sector garddwriaeth.

### Ydych chi'n fusnes yn y sector garddwriaeth? (n=204)

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Ydw	174	3.10%
Nac ydw	30	0.53%
Heb ateb	5415	96.37%

### Faint o gyflogeion sydd yn eich sefydliad?

(Cwestiwn 7 yn yr ymgynghoriad)

Mae'r atebion i'r cwestiwn hwn yn rhoi syniad o faint y busnesau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad. O'r 170 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 125 (74%) yn fusnesau gyda 49 neu lai o weithwyr. Y grŵp mwyaf nesaf oedd busnesau gyda 50-249 o weithwyr (n=27, 16%), ac roedd y grŵp lleiaf yn 18 o fusnesau gyda mwy na 250 o weithwyr (10%).

### Faint o gyflogeion sydd yn eich sefydliad? (n=170)

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
0-49	125	73.5%
50-249	27	15.8%
250+	18	10.5%
Heb ateb	5449	-

**A ydych chi'n cytuno y dylai gwerthwyr mawn garddwriaethol gael gwybodaeth gan eu gweithgynhyrchwyr am faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu maent yn eu gwerthu?**

(Cwestiwn 8 yn yr ymgynghoriad)

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth (n=167, 93%) yn cytuno y dylent gael gwybod faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu a werthir ganddynt. Dewisodd 13 ymatebydd (7%) 'Nac ydw', 'Ddim yn siŵr' neu 'Amherthnasol'.

**A ydych chi'n cytuno y dylai gwerthwyr mawn garddwriaethol gael gwybodaeth gan eu gweithgynhyrchwyr am faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu maent yn eu gwerthu? (n=180)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Ydw	167	92.8%
Nac ydw	4	2.2%
Ansicr	3	1.6%
Ddim yn berthnasol	6	3.3%
Heb ateb	5439	-

**A fydddech chi'n gallu asesu faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu rydych yn eu gwerthu? [Os bydddech chi] Sut byddwch chi'n asesu hyn?**

(Cwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad)

Cafwyd 172 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac anogwyd y rhai a atebodd 'byddwn' (n=62, 36%) i ddarparu ymateb ysgrifenedig ar gyfer sut byddent yn asesu hyn.

**A fydddech chi'n gallu asesu faint o fawn sydd yn y sachau cyfryngau tyfu rydych yn eu gwerthu? [Os bydddech chi] Sut byddwch chi'n asesu hyn? (n=172)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Byddwn	62	36.0%
Na fyddwn	31	18.0%
Ansicr	19	11.1%
Ddim yn berthnasol	60	34.9%
Heb ateb	5447	-

Ail ran y cwestiwn oedd **'Rhowch eich rhesymau a lanlwytho unrhyw dystiolaeth i'w cefnogi (dewisol).'** Cafwyd 90 ymateb i'r rhan hon o'r cwestiwn. Cafodd yr ymatebion hyn eu dadansoddi a'u cofnodi fel rhai a oedd yn perthyn i un neu fwy o bum categori sef:

- Gallwn wirio'r cynnwys â llaw 36%
- Rydyn ni'n ddi-fawn yn barod 35%
- Dydyn ni ddim yn gwerthu cyfryngau tyfu 20%
- Dylid labelu cynnwys y mawn yn glir 13%
- Ni allwn wirio'r cynnwys â llaw 7%

**A ddylai busnesau bach a chanolig gael mwy o amser i fabwysiadu'r mesur hwn? [Os 'dylai'] Faint yn fwy o amser ddylem ni ei roi i fusnesau bach a chanolig i fabwysiadu'r mesur hwn?**

(Cwestiwn 10 yn yr ymgynghoriad)

O'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, categoreiddiwyd y farn ynghylch a ddylai busnesau bach a chanolig gael mwy o amser i fabwysiadu unrhyw newidiadau, gyda 79 (44%) yn dewis 'Dylai' ac 84 (47%) yn dewis 'Na ddylai'.

Pan ofynnwyd cwestiwn pellach iddynt ynghylch faint o amser y dylid ei roi iddynt, roedd yr ateb fel a ganlyn yn seiliedig ar 100 o ymatebion:

- 3 blynedd a mwy 52%
- Ansicr 17%
- 2 flynedd 14%
- blwyddyn 12%
- 6 mis 5%

**A ddylai busnesau bach a chanolig gael mwy o amser i fabwysiadu'r mesur hwn? [Os 'dylai'] Faint yn fwy o amser ddylem ni ei roi i fusnesau bach a chanolig i fabwysiadu'r mesur hwn? (n=180)**

Opsiw'n	Cyfanswm	Canran
Dylai	79	43.8%
Na ddylai	84	46.7%
Ansicr	17	9.4%
Heb ateb	5439	-

**Pa mor ymarferol fydd hi i werthwyr cynnyrch sy'n cynnwys mawn, er enghraifft, planhigion mewn potiau, gael gwybodaeth fanwl am faint o fawn a ddefnyddir ym mhotiau'r planhigion?**

(Cwestiwn 11 yn yr ymgynghoriad)

Cafwyd ymateb i'r cwestiwn ynghylch pa mor ymarferol fyddai i fanwerthwyr gael gwybodaeth gywir am faint o fawn sydd mewn cynhyrchion fel planhigion mewn potiau, gyda 38% (n=65) o'r ymatebwyr yn nodi ei bod yn ymarferol iawn, a 42% (n=70) yn ateb ei bod yn ymarferol i raddau.

**Pa mor ymarferol fydd hi i werthwyr cynnyrch sy'n cynnwys mawn, er enghraifft, planhigion mewn potiau, gael gwybodaeth fanwl am faint o fawn a ddefnyddir ym mhotiau'r planhigion? (n=168)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Ymarferol iawn	65	38.7%
Eithaf ymarferol	70	41.6%
Ddim yn ymarferol o gwbl	33	19.6%
Heb ateb	5451	-

Cafodd y 66 ymateb i'r rhan benagored o'r cwestiwn hwn ar yr ymarferoldeb i fanwerthwyr eu dadansoddi a rhoddir yr ymatebion wedi'u grwpio isod.

- Gallai gweithgynhyrchwyr ddarparu'r wybodaeth yn hawdd 27%
- Maent eisoes yn datgan y cynnwys mawn 24%
- Daw ein cynhyrchion o dramor 21%
- Ni ddylent gynnwys mawn
- Byddai pobl yn dweud celwydd am gynnwys y mawn, a byddai'n anodd gorfodi hyn 9%
- Maen nhw eisoes yn ddi-fawn 6%

**A ddylai rhai manwerthwyr gael eu heithrio rhag adrodd os ydynt yn gwerthu llai na maint penodol o fawn mewn blwyddyn? [Os atebwyd 'dylai'] Beth ddylai'r trothwy fod mewn m<sup>3</sup>?**

(Cwestiwn 12 yn yr ymgynghoriad)

Roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn gan amlaf yn credu na ddylai manwerthwyr gael eu heithrio rhag sôn am faint o fawn maen nhw'n ei werthu, gyda 114 (64%) yn dewis 'Na ddylai'.

**A ddylai rhai manwerthwyr gael eu heithrio rhag adrodd os ydynt yn gwerthu llai na maint penodol o fawn mewn blwyddyn? [Os atebwyd 'dylai'] Beth ddylai'r trothwy fod mewn m<sup>3</sup>? (n=177)**

Opsiwn	Cyfanswm	Canran
Dylai	38	21.5%

<b>Na ddylai</b>	114	64.4%
<b>Ansicr</b>	25	14.1%
<b>Heb ateb</b>	5442	-

## Ymatebion eraill gan eNGOs a Defnyddwyr masnachol mawn

Cafwyd nifer o ymatebion cydlynol i'r ymgynghoriad gan gyrff y diwydiant a Mudiadau Amgylcheddol Anllywodraethol (eNGOs). Lle bo hynny'n ymarferol, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr ymatebion a nodir uchod. Mae nifer o ymatebion nad oeddent yn addas i'w dadansoddi yn yr ymatebion uchod yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau yn y dyfodol ac i lywio cyfeiriad y polisi.

## Casgliad a'r Camau Nesaf

Rydyn ni'n croesawu'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod cefnogaeth gref ymysg y cyhoedd i gyflwyno gwaharddiad ar werthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn o gymharu â'r opsiynau eraill ac o'r herwydd, gwahardd gwerthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn erbyn diwedd y senedd hon yw'r mesur sy'n cael ei ffafrio.

Fel cam nesaf byddwn yn bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda'r Sector Garddwriaeth i ddeall yn well y rhwystrau technegol i gyflwyno dewisiadau amgen yn lle cyfryngau tyfu mawn yn y sector proffesiynol ac i ddeall sut gellir gweithredu eithriadau rhag y mesur arfaethedig sy'n cael ei ffafrio o ran y sector garddwriaeth broffesiynol.

Mae'r ymateb hwn yn rhoi manylion y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gan fod hwn yn fater datganoledig, bydd safbwynt polisi Cymru yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a safbwynt polisi Lloegr yn cael ei gyhoeddi gan Defra.